

Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council

Cyfarfod o'r Cyngor Llawn Rhagfyr 2018

[Full Council Meeting December 2018](#)

Rhoddir rhybudd y cynhelir Cyfarfod Llawn o'r Cyngor ar **Nos Fawrth, 18 Rhagfyr 2018 yn Canolfan y Fron i gychwyn 7.30 yr hwyr** ac felly fe'ch gwysir chwi i fynychu.

Notice is hereby given that the next Monthly meeting of the Council will be held on **Tuesday, 18 December 2018 at Canolfan y Fron to commence 7:30 pm** and you are summoned to appear

Bydd y ceisiadau cynllunio ar gael i chwi am ugain munud cyn i'r cyfarfod gychwyn.
[Planning applications will be available to view twenty minutes before the start.](#)

Amgaeaf y canlynol i chwi
[The following is enclosed -](#)

- 1) Rhaglen Cyfarfod 18 Rhagfyr 2018 - [Agenda for the Council Meeting 18 December 2018](#)
- 2) Cofnodion drafft Cyngor Llawn 19 Tachwedd 2018 - [Draft Minutes of the Council Meeting 19 November 2018.](#)
- 3) Cofnodion drafft Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd 4 Rhagfyr 2018 - [Draft Minutes of the Finance Committee held 4 December 2018](#)

Cyfarfod / Meeting	Cyngor Llawn – Full Council
Dyddiad / Date	Nos Fawrth, 18 Rhagfyr 2018 / Tuesday, 18g December 2018
Amser/ Time	7.30 yr hwyr / pm
Lleoliad/ Location	Canolfan y Fron

Rhaglen / Agenda

(noder y bydd Mr Huw Roberts yn bresennol i gyfieithu'r trafodaethau / note that Mr Huw Roberts will be in attendance to translate proceedings)

- 1 Croeso'r Cadeirydd / *Chairman's Welcome*
- 2 Ymddiheuriadau ac Absenoldeb Aelodau / *Apologies from Members*
- 3 Datgan Buddiant Personol Neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu gan Aelodau ar unrhyw faterion ar y Rhaglen / *To Receive Disclosures of Personal and Prejudicial Interest by Members on any Items on the Agenda.*
- 4 Cynnig i Mair Edwards Rheolwr Mentrau Cymuned ymweld y Cyngor Cymuned i drafod "Prosiect Iechyd a Mwy Dyffryn Nantlle" / *Invitation to Mair Edwards Manager of "Mentrau Cymuned" to visit Community councils to discuss the project "Dyffryn Nantlle Health & More"*

Yn dilyn cyfarfod ym Mhenygroes ar Ionawr 19eg a drefnwyd gan Wyn Thomas (Cyfarwyddwr Cynorthwyol - Gofal Cychwynnol) BCUHB i drafod y posibilrwydd o ddod a gwasanaethau iechyd a mwy ynghyd yn Dyffryn Nantlle, fe gytunwyd y byddai Grŵp Cynefin yn cydgordio astudiaeth dichonolrwydd a fyddai fel man cychwyn yn cyfweld a rhan ddeiliaid. Apwyntiodd Grŵp Cynefin Gwenallt Consulting i gefnogi gyda'r gwaith yma a oedd yn cynnwys:

- Cyfweld rhanddeiliaid i adnabod yr awch, angen, gwagle, defnydd ac i adnabod unrhyw gyfraniadau cyfalaf neu refeniw
- Casglu ystadegau lleol i adnabod unrhyw fylchau mewn gwasanaethau yn yr ardal
- Adnabod pa gyfleon eraill sydd yn bosib i gynyddu deilliannau i'r gymuned lleol
- Adnabod tir o gwmpas Penygroes a fyddai'n addas i ddatblygu
- Dysgu o fodelau tebyg eraill
- Adnabod grantiau posib ar gyfer y cynllun.

Atodaf grynodedeb o'r adroddiad Dichonolrwydd (mae croeso i chi gysylltu os angen copi llawn o'r adroddiad)

Yn mis Mehefin cynhaliwyd gyfarfod adborth yn Neuadd Goffa Penygroes cytunwyd bod awch ac angen i gario mlaen gyda'r gwaith ymchwil ac i ddatblygu opsiynau i gyd leoli gwasanaethau Iechyd a mwy yn ardal Dyffryn Nantlle. Isod gweler rhai o'r datblygiadau ers mis Mehefin.

- Cyflwyno y syniadau gwreiddiol i gyfarfod anffurfiol o Gabinet Sir Gwynedd
- Datblygu trefniadau prosiect mwy ffurfiol. (Bwrdd Prosiect a 4 Ffrwd Gwaith – Tai a Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Dylunio a Ymgysylltu Cymunedol.)
- Y Bwrdd Prosiect wedi cyfarfod dwy waith Medi a Tachwedd 2018.
- Y ffrydiau gwaith yn brysur yn trefnu amserlen o gyfarfodydd
- Ymchwil i gyllido a'r model ariannol.

Cynhaliwyd cyfarfod Ymgysylltu Cymunedol 12 Tachwedd 2018 yn Nhŷ Silyn Penygroes a penderfynwyd cynnig i Mair Edwards (Rheolwr Mentrau Cymuned) **i rhoi cyflwyniad byr i'r cynghorau cymuned Llanllyfni, Llandwrog a Llanwnda.** Wedi hynny os yw'r cyngor cymuned yn dymuno adrodd yn nol iddynt yn rheolaidd ynglŷn ar prosiect.

Fyddai modd i chi gysylltu yn ôl os yw'r Cyngor yn dymuno i Mair Edwards fynychu eich Cyfarfod nesaf . Os yn cytuno fyddai modd ichi gynnig dyddiad hwylus.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Cofion

Bethan Thomas

5 Derbyn Cofnodion y Cyfarfod Cyngor Llawn a gynhaliwyd 19 Tachwedd 2018 fel Rhai Cywir- *To Accept the Minutes of the Full Council meeting held 19 November 2018, as a true record .*

6 Materion yn Codi o'r Cofnodion – *Matters Arising from the Minutes*

a) Delwedd Dyffryn Nantlle

Adroddiad gan Cyng. Helen Hughes a Hywel J Owen ar y noson o'r cyfarfod a gynhaliwyd 8fed Tachwedd 2018. Materion i'w trafod o'r cofnodion.

Copi o'r Cofnodion wedi ei anfon i pob aelod ymlaen llaw a copi wei ei gynnwys gyda'r Rhaglen

[Report by members present of the meeting held 8th November](#)

[Matters to be discussed from the minutes](#)

[Minutes of the meeting sent to every member , copy included with the Agenda](#)

3. CROESO A CHYFLWYNIADAU

- 3.1 Cyflwynodd pawb eu hunain gan nodi eu rol/pwy gorff yr oeddynt yn eu cynrychioli. Amlinellodd DWW pwrpas y grŵp, sef i ddeall prif flaenoriaethau y cymunedau, y safon disgwyliedig o ran gwahanol wasanaethau ac i weld pa gyfleon sydd ar gyfer cydweithio ar y cyd i gyrraedd y safonau hynny.

Enw'r Grŵp

- 3.2 Cafwyd cryn drafodaeth am enw i'r grŵp a chodwyd y term "delwedd" o ran beth oedd perthnasedd hynny ynghyd a diffiniad yr ardal sef Dyffryn Nantlle ac efallai bod cyfle i gael teitl gwahanol a fyddai yn adlewyrchiad gwell o bwrpas y Grŵp. Cytunwyd y byddai pob Aelod yn foddwl am deitl addas.

CYFARFOD DELWEDD DYFFRYN NANTLLE 9.30yb – 8 TACHWEDD 2018 – YSTAFELL GYFARFOD CANOLFAN HAMDDEN PLAS SILYN, PENYGRŌES

4. PRIF FLAENORIAETHAU

- 4.1 Trafodwyd y 5 prif flaenoriaeth ond cytunwyd yn fuan iawn i ganolbwyntio ar faterion ysbwriel, casglu gwastraff a baw ci.

Ysbwriel

- 4.2 O ran symud ymlaen gyda hyn, cytunwyd y byddai ymgyrchoedd i gasglu sbwriel, dan arweiniad y gymuned, yn gallu rhoi negeseuon cadarnhaol i'r gymuned yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth ac addysgu trigolion nad yw gollwng sbwriel yn dderbyniol.

- 4.3 Cafwyd cryn drafodaeth ynghyd â newid ymddygiad a seicoleg trigolion a chytunwyd y byddai ymgyrchoedd casglu ysbwriel yn cyfrannu rhyw gymaint tuag at hynny.

- 4.4 Addysgu Pellach - trafodwyd sgôp i ddefnyddio posteri, anfon siaradwyr i mewn i ysgolion, cynnwys fel rhan y cwricwlwm. Cydweithio a pherson adnabyddus o'r ardal i fod yn bencampwr ar faterion fel hyn.

Baw Ci

- 4.5 Yn dilyn trafodaeth cytunwyd bod angen cyfarpar, binau yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth bod gadael i gan faeddu mewn mannau cyhoeddus yn annerbyniol.

Gwastraff ac Ailgychu

- 4.6 Nodwyd fod dipyn o olwg a fwy o ysbwriel yn dilyn y casgliadau gan fod deunydd yn cael eu gadael ar ein strydoedd. Nododd Si fod yr Adran Prifffyrdd Bwrdeistrefol yn cael yr afael ar hyn a gobeithir y bydd hyn yn newid yn y dyfodol agos.

Torri Gwair

- 4.7 Ni chafwyd llawer o drafodaeth ar y mater ond cadarnhaodd Si fod posib i Gynghorau Cymuned gyfrannu arian i'r Adran Prifffyrdd ar gyfer cynyddu nifer o doriadau gwair mewn blwyddyn.

Cudiant Cyhoeddus

- 4.8 Nodwyd un neu ddau o faterion cysodfannau bws.
- 4.9 Cadarnhaodd DWW fod swyddogion y Cyngor yn cynnal sgysiau gyda corff lleol ac yn edrych ar ddatpariaeth cudiant cymunedol.

5. UNRHYW FATER ARALL

- 5.1 Dim materion penodol yn codi.

6. **CYFARFOD NESAF:** i'w gynnal ymhen 3 mis.

- b) **Cwn Rhydd / Stray Dogs**
Diweddariad ar y noson / [Update will be given in the meeting](#)
- c) **Lloches Bws Cae'r Moel / Cae'r Moel Bus Shelter**
Diweddariad ar y noson / [Update will be given in the meeting](#)
- ch) **Ymgysylltu Gyda'r Gymuned / Consulting With The Community**
Diweddariad ar y noson / [Update will be given in the meeting](#)

Bydd y Rheolwr Gweinyddol a Chyllid yndatgan buddiant am rhan o'r eitem hwn yn ymwneud a'r cynllun pensiwn "LGPS"

- 7 Derbyn Cofnodion Cyfarfod gyda Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd 4 Rhagfyr 2018 fel rhai cywir -**
[To accept the minutes of the Finance Committee Meeting held 4 December 2018, as a true record](#)
- 8 Materion yn Codi o'r Cofnodion – [Maters Arising from the Minutes](#)**

9 Materion yn codi gan Aelodau / [Maters Arising from Members](#)

Cyng. Eddie Willcox , Groeslon –

- Mainc i gae chwarae Y Fron / [Bench Fron Playing Field](#)
- Lloches Bws Gardd y Coleg, Carmel / [Bus Shelter Carmel Community Garden](#)
- Ariannu'r Cyngor / [Council Funding](#)

Cyng. Gerwyn Owen, Groeslon –

- Cyflwr y lonydd yn y gymuned a dylanwad Cyngorwyr Sir. / [Conditions of roads in the community and the influence of local members](#)

Cyng. David C Davies a Cyng. Hywel J Owen, Groeslon –

- Trefniadau agor maes parcio Bryn'rodyn. / [Arrangements to open Bryn'rodyn car park](#)

10 Binau Halen / [Salt Bins](#)

Atgoffir Aelodau mai penderfyniad y Cyngor yn ei gyfarfod 15 Hydref oedd i oedi rhag ymrwymo i brynu y gwasanaeth gan Gyngor Gwynedd hyd nes y byddai'r canlyniad ymgysylltu wedi dod i law.

[Penderfynwyd oedi ar y penderfyniad hyd nes y bydd canlyniad yr ymgysylltu wedi dod i law.](#)
[Resolved – to delay any decision until the result of the questionnaire is revealed](#)

Gan fod y gwaith ymgysylltu bellach yn llithro bydd rhaid i'r Cyngor drafod y mater ar drothwy y Gaeaf.

Sylwadau Aelodau yn y cyfarfod 15 Hydref 2018–

AP - ymgysylltu gyda'r gymuned sydd yn mynd i benderfynu prynu'r gwasanaeth ai peidio
EW - sawl bin halen sydd yn y gymuned? Rheolwr - heb gael ateb pendant gan Gyngor Gwynedd ond oddeutu 12.
DCD - Gaeaf caled o'n blaenau eto yn ôl y rhagolygon tywydd. O'r farn y dylid ystyried prynu'r gwasanaeth.
DW - ydi'r binau yn y llefydd priodol? Oes angen llenwi pob bin halen? Angen bod yn wylriadwrus ac o'r farn mai dyletswydd Cyngor Gwynedd ydi llenwi'r binau.

Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol
Head of Highways and Municipal

Steffan Jones BEng(Hons) MCIWM

Gofynnwch am: Steffan Jones

☎ (01286) 679402

✉ SteffanJones@gwynedd.llyw.cymru

Ein Cyf: AA/PB/BiniauhalenSJ/EM/1031



5 Medi, 2018

Mr David Roberts
Clerc Cyngor Cymuned Llandwrog
Bryn Meurig
Carmel
Caernarfon
LL54 7DS

Annwyl Glere,

Biniau Halen

Cyfeiriaf at ein gohebiaeth mewn perthynas â biniau halen sydd wedi eu lleoli o fewn eich cymuned.

Hoffwn unwaith yn rhagor roi y cynnig i chi ymuno â'r cynllun a cadarnhaf y gost o gyflenwi'r bin halen fel a ganlyn:

- llenwi pob bin yn y gymuned a'r ddechrau'r gaeaf : £40 y bin
- ail-lenwi bin ar gais y gymuned yn ystod y gaeaf rhwng 1 Hydref a Ebrill 30: £60 y bin

Byddwn ddiolchgar i chi gadarnhau eich dymuniad/penderfyniad erbyn diwedd Medi fel y medrwn sicrhau trefniadau cyn y gaeaf. Noder byddwn yn casglu biniau lle nad oes ymrwymiad wedi'r dyddiad yma.

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich ymateb.

Yn gywir,


Steffan Jones

Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol (dros dro)

Gohebiaeth / Communication

11 Cylch yr Iaith – Ymateb i Ymgynghoriad Cyngor Gwynedd i Ail-Strwythuro Canolfannau Iaith y Gymraeg Y Sir - [Response to the Consultation by Gwynedd Council to Restructure the Welsh Language Centres in Gwynedd](#)

e-bost gan Ieuan Wyn , Cylch yr Iaith dyddiedig 9 Rhagfyr 2018

I sylw Cynghorau Cymuned/Tref Gwynedd

Annwyl Glerc,

Parthed: Ail-strwythuro Canolfannau Iaith Gwynedd

Mae Gwasanaethau Addysg Cyngor Gwynedd ar hyn o bryd yn ymgynghori ar ail-strwythuro Canolfannau Iaith y sir. Mae hi'n gwbl amlwg na fyddai'r sefydliadau hollbwysig hyn yn gweithredu mor effeithiol pe baent yn cael eu hail-strwythuro o ganlyniad i dderbyn llai o gyllid.

Atodwn i'ch sylw gopi o lythyr Cylch yr Iaith ar Garem Jackson, Pennaeth Gwasanaethau Addysg Cyngor Gwynedd. Byddem yn ddiolchgar i chi pe baech yn darparu copi o'r llythyr i aelodau eich cyngor.

Byddem yn falch iawn pe baech fel cyngor cymuned/tref yn ystyried anfon at Garem Jackson

(garemjackson@gwynedd.llyw.cymru)

yn galw arno i roi heibio'r bwriad i ail-strwythuro'r Canolfannau Iaith, efo copiau er gwybodaeth at y Cyng. Gareth

Thomas, Deilydd Portffolio Addysg,

cynghorydd.gareththomas@gwynedd.llyw.cymru)

a'r Cyng. Dyfrig Siencyn, Arweinydd y Cyngor,

(cynghorydd.dyfrigsiencyn@gwynedd.llyw.cymru)

Yn gywir,

Ieuan Wyn

Ysgrifennydd, Cylch yr Iaith

Cylch yr Iaith

Talgarreg

Ffordd Carneddi

Bethesda

Gwynedd

LL57 3SG

01248 600297

ieuanwyn01@gmail.com

Garem Jackson

Pennaeth

Gwasanaethau Addysg Cyngor Gwynedd

5 Rhagfyr, 2018

Annwyl Garem Jackson,

Parthed: Canolfannau Iaith – Grant Gwella Addysg

Dymunwn ymateb i benderfyniad Awdurdod Addysg Cyngor Gwynedd i wneud newidiadau staffio yng Nghanolffannau Iaith y sir.

Ar ôl darllen eich llythyr ac ymatebion y Canolfannau Iaith eu hunain i'r bwriad i ail-strwythuro'r drefn staffio, rydym yn sylwi nad ydych yn eich dogfen ymgynghori wedi cynnwys maen prawf hanfodol i osod y dewisiadau yn ei erbyn.

Ar hyn o bryd, y meini prawf yw fel a ganlyn:

1. Nad yw'r ail-strwythuro yn cael effaith ar argaeledd y ddarpariaeth i hwyrddyfodiaid (h.y. bod yr un nifer neu fwy o ddysgwyr yn cael mynediad at y gwasanaeth)
2. Isafswm lefel staffio o 2 FTE ymhob Canolfan Iaith

Yr hyn sy'n amlwg yw absenoldeb maen prawf cwbl allweddol a hanfodol, sef **'Nad yw'r ail-strwythuro yn cael effaith ar ansawdd y ddarpariaeth, hynny yw effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y Canolfannau Iaith o ran eu gallu i gyflawni eu diben yn llwyddiannus.'**

Tystiolaeth uniongyrchol staff presennol y Canolfannau Iaith yw na all cymorthyddion gyflawni gorchwylion athrawon yn llawn ac yn ddigonol i sicrhau effeithlonrwydd gweithrediad y canolfannau ym mhob agwedd ac effeithiolrwydd hanfodol yr addysgu a'r dysgu. Mae profiad y staff yn dangos bod llwyddiant eu cynllun gwaith yn dibynnu ar anbenigeddau athrawon cymwys. Gyda phob dyledus barch i gymorthyddion a'u cyfraniad neilltuol, y farn gwbl glir yw na fyddai gan y Canolfannau Iaith y gallu i gyflawni eu gwaith yn effeithlon ac effeithiol pe bai cymorthyddion yn cymryd le athrawon. Mae'r cwrs iaith a ddefnyddir wedi ei lunio'n bwrpasol er mwyn cyflawni'r gwaith o gyflwyno'r Gymraeg i grwpiau sy'n cynnwys nifer benodol o blant mewn un tymor, ac mae effeithiolrwydd y cwrs yn dibynnu ar arbenigedd athrawon cymwys. Cwrs iaith dwys ydyw – cwrs trochi sy'n gofyn deallwriaeth o brosesau caffael iaith, agweddau ar seicoleg addysg yn ogystal ag egni meddyliol a chorfforol. Mae gofyn cyflwyno hefyd holl ystod y pynciau ysgol i'r dysgwyr trwy'r Gymraeg. **Mae'n gwbl amlwg fod rhaid wrth athrawon cymwys i gyflawni'r gofynion hyn yn llwyddiannus.**

Gwyddom oll beth fyddai'r goblygiadau i'n hysgolion a'n cymunedau. O fethu â sicrhau bod gafael ddigonol ar y Gymraeg gan y plant, byddent yn methu integreiddio i'r drefn Gymraeg ar ôl dychwelyd i'w hysgolion, o ran eu gallu i dderbyn eu haddysg trwy gyfrwng yr iaith yn ddirwystr ac o ran eu gallu i ymdoddi i fywyd ysgol, gan gynnwys cymdeithasu gyda chyd-ddisgyblion, trwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai methiant y Canolfannau Iaith i gynnal y lefel bresennol o gyrhaeddiad yn arwain at leihau effeithiolrwydd Siarter y Gymraeg a'r Strategaeth Iaith Uwchradd.

Pe baech chi wedi cynnwys y maen prawf a nodwyd gennym uchod, sef **'Nad yw'r ail-strwythuro yn cael effaith ar ansawdd y ddarpariaeth, hynny yw effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y Canolfannau Iaith o ran eu gallu i gyflawni eu diben yn llwyddiannus'** yn erbyn yr opsiynau, byddech wedi sylweddoli'n syth na allai cymorthyddion gymryd lle athrawon.

Ni ddylid mynd ymlaen gyda'r ail-strwythuro. Byddai'n benderfyniad annheilwng a gwarthus ar ran Cyngor Gwynedd yn enw trigolion y sir. Mae parhad ein cenedl yn dibynnu ar barhad ein hiaith, ac ni ddylem ar unrhyw gyfrif ei thanseilio mewn unrhyw fodd. Yn wir, ei hatgyfnerthu ddylem. Ni allwn ddychmygu unrhyw genedl yn ystyried bygwth ei gwahanrwydd ei hun a pheryglu ei bodolaeth trwy wneud penderfyniadau a fyddai'n arwain at wanychu ei hiaith a'i diwylliant.

Pwyswn yn daer arnoch i chi ailystyried y mater, a pheidio â mynd ymlaen gyda'ch bwriad.

Byddem yn falch iawn pe baech chi a'r Cyng. Gareth Thomas yn derbyn dirprwyaeth o'n mudiad i drafod y mater.

Edrychwn ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir,

Ieuan Wyn
Ysgrifennydd

12 Cyngor Gwynedd – Priffyrdd a Bwrdeistrefol / Gwynedd Council Highways & Municipal

Ymateb CG i lythyr y Cyngor ynglyn a diffyg trin chwyn ar yr heolydd nol ym mis Medi – Reply to the our letter to CG in September regarding lack of weed management along the highways

Mae'r Gwasanaeth Priffyrdd yn trin chwyn dwywaith y flwyddyn fel rhan o'i rhaglen waith. Ar hyn o bryd dim ond llwybrau ac ymylon caled o fewn cyfyngiadau 30mya sydd yn derbyn sylw gennym. Mae hyn oherwydd pryderon iechyd a diogelwch am y dull sydd yn cael ei ddefnyddio gan ei'n contractwr i drin ymylon gwledig ar ffyrdd sydd gyda chyfyngiadau cyflymder uwch.

Mae'r cyfyngiad cyflymder rhwng Groeslon a chylchfan Fingerpost yn 40mya ac felly heb gael ei drin gennym yn ystod y flwyddyn yma. Rwy'n cydnabod o ganlyniad i hyn mae chwyn yn broblem ar hyd y ffordd. Ond nodaf mai effeithio ar edrychiad y lleoliad y mae hyn yn hytrach nag ar ddiogelwch defnyddwyr y briffordd.

Mae tendr lladd chwyn newydd yn mynd allan gan y Cyngor erbyn y flwyddyn ariannol nesaf, ac rwy'n gobeithio bydd datrysiad i'r broblem gyda ffyrdd gwledig o ganlyniad. Bydd hyn wedyn yn caniatáu i ni drin pob lleoliad addas ar ei'n rhwydwaith ffyrdd mewn ffordd sydd yn gwarchod diogelwch defnyddwyr y ffordd a'r sawl sydd yn chwistrellu.

Byddwn ddim yn chwistrellu'r lleoliad yn ystod y flwyddyn ariannol yma gan ei bod nawr yn nhymor y gaeaf. Mi wnawn ail edrych ar y lleoliad yma ynghyd a gweddill y rhwydwaith ffyrdd gwledig yng Ngwynedd unwaith mae'r tendr newydd yn ei le. **C**

13 Grwp Diffibriliwr Y Groeslon / Groeslon Defribilator Group

Ystyried y llythyr isod a dderbyniwyd gan y Grwp / Consider the contents of the letter received from the Group

Annwyl Glerc,

Grŵp Diffibriliwr Y Groeslon.

Diben hyn o eiriau yw cyflwyno i Gyngor Cymuned Llandwrog gais am rodd ariannol ar gyfer ymgyrch y Grŵp uchod i ddarparu dwy uned diffibriliwr i wasanaethu Y Groeslon.

Mae'r Grŵp wedi cynnal gwaith ymchwil gofalus cyn cyrraedd penderfyniad o blaid uned ZOLL (AD+) sydd tua £1500.00 i'w bwrcasu a'i osod. Nôd y grŵp fel man cychwyn yw darparu uned a'i osod ar dalcen Neuadd Bentref Y Groeslon fel ei fod yn agos i'r palmant ar gyfer defnydd didrafferth ar adeg argyfwng.

Sefydlwyd y Grŵp ond yn ddiweddar ac mae cefnogaeth y pentrefwyr wedi cyrraedd lefel sydd yn dystiolaeth diamwys fod dymuniad cadarn yn Y Groeslon am ddiffibriliwr lleol. Mae'r Grŵp hefyd wedi sicrhau cydweithrediad Pwyllgor Rheoli'r Neuadd Bentref drwy gael cyfrif banc cyfyngedig o dan enw'r neuadd a bydd y cyllid a saif yno yn hollol ar wahan i gyllid dan ofal y Pwyllgor Rheoli.

Mae'r Grŵp erbyn hyn wedi llunio rhaglen o weithgareddau a digwyddiadau am y chwe mis nesaf i godi arian sydd yn golygu ymroddiad a gwaith trefnu nid ansylweddol gan unigolion.

Gwerthfawrogir yn fawr pe bai'r cyngor cymuned yn rhoi ystyriaeth i'r cais hwn am gyfraniad ariannol i goffrau'r Grŵp. Yr wyf yn sylweddoli na allaf ddarparu mantolen ariannol i gefnogi'r cais ond credaf fod amgylchiadau'r Grŵp yn rhai eithriadol.

Trysorydd Pwyllgor Rheoli'r neuadd sydd hefyd yn gweithredu fel Trysorydd y Grŵp ac fe all ddarparu gwybodaeth ategol am drefniant y cyfrif banc fel y bo'r angen.

GWEITHREDU – ystyried yr ohebiaeth a penderfynu i gyfrannu neu gohirio wrth ystyried ceisiadau Adran 137
ACTION REQUIRED – to consider the request, decide to contribute or defer the request until the Council approves all Section 137 grants

14 Cyngor Tref Caernarfon – Eisteddfod Genedlaethol 2021 / Caernarfon Town Council – National Eisteddfod 2021



CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON
CAERNARFON ROYAL TOWN COUNCIL

Adeilad yr Institiwt, | Institute Building,
Allt Pafiliwn, | Pavilion Hill,
Caernarfon. LL55 1AS | Caernarfon. LL55 1AS

Clerc y Dref Katherine Owen Town Clerk

☎ (01286) 672 943
☎ 01286 676 392

✉ e-bost } clercydref@cyngortrefcaernarfon.llyw.cymru
✉ e-mail } townclerk@caernarfontowncouncil.gov.wales

Wefan/Website - www.caernarfontowncouncil.gov.wales

Sed Rhagfyr 2018

Annwyl Gadeirydd a Chlerc ,

Ysgrifennaf atoch ar ran Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon .

Mae'r Cyngor Tref wedi gwahodd yr Eisteddfod Genedlaethol yma i Gaernarfon yn 2021 er mwyn ceisio creu Steddfod Stryd fel a gafwyd eleni ym Mae Gaerdydd . Teimla'r Cyngor fod Steddfod o'r fath wedi bod yn llwyddiant ysgubol o ran denu pobl newydd i'r Eisteddfod a chodi ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg. Yma yng Nghaernarfon, byddai modd i nifer o Gymry Cymraeg gael blas ar Steddfod am ddim – a hynny am y tro cyntaf.

Gan ein bod yn ymwybodol bod lleoliadau eraill yng Ngwynedd yn cael eu hystyried, ysgrifennwn atoch i ofyn am lythyr o gefnogaeth er mwyn profi i'r Eisteddfod bod Caernarfon a'r ardal leol yn awyddus i groesawu'r Wyl i'r dre.

Yn anffodus, mae'r amserlen yn dynn, ac mae angen i ni dderbyn llythyrau cefnogi yn gynnar iawn ym mis Ionawr. Golyga hyn ein bod yn gofyn i chi drafod y mater yn eich cyfarfod nesaf .

Mae cyfarfod yn cael ei chynnal yma yn adeilad yr Institiwt nos Iau nesaf sef y 13 o Rhagfyr am 7 yn os oes na unrhyw clerc neu cadeirydd yn dymuno fynychu .

Gyda diolch o flaen llaw am eich cydweithrediad .

Yn gywir

Katherine Owen

Clerc Cyngor Tref Caernarfon

GWEITHREDU – ystyried yr ohebiaeth a gweithredu fel bo'r angen
ACTION REQUIRED – to consider the request, and to act as necessary

15 Gwynedd a Môn – Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd / Gwynedd & Anglesey Joint Planning Policy Unit

Ystyried or ohebiaeth ganlynol - Consider the following communication

Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd – Gwynedd & Môn Joint Planning Policy Unit – Anglesey & Gwynedd

Pencadlys / Headquarters
Cyngor Gwynedd
Stryd y Jêl / Shire Hall Street
Caernarfon
LL55 1SE

Gofynnwch am / Ask for: Nia Davies / Bob Thomas
☎(01766) 771000
✉ polisicynllunio@gwynedd.llyw.cymru



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Ein Cyf / Our Ref:
Eich Cyf / Your Ref:

Dyddiad / Date: Rhagfyr/December, 20

Annwyl Clerc,

Dear Clerk,

Yng: Ymgynghori cyhoeddus Canllawiau Cynllunio
Atodol:-

- Tai Fforddiadwy
- Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy
- Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid – Ymgynghoriad Pellach

Re: Public consultation Supplementary Planning
Guidance:-

- Affordable Housing
- Maintaining and Creating Distinctive and Sustainable Communities
- Tourism Facilities and Accommodation – Further Consultation

Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLI ar y Cyd) Gwynedd a Môn gan y Cyngorau ar 31ain o Orffennaf, 2017. Mae'r CDLI ar y Cyd yn disodli'r cynlluniau datblygu mabwysiedig blaenorol ar gyfer ardal Awdurdodau Cynllunio Lleol Gwynedd a Môn. Y CDLI ar y Cyd sydd yn gosod y fframwaith polisi cynllunio defnydd tir ar gyfer yr Awdurdodau. Yn dilyn mabwysiadu'r CDLI ar y Cyd mae'r Cyngorau yn y broses o baratoi cyfres o Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) ar bynciau gwahanol. Mae CCA yn rhoi arweiniad am bolisiau penodol a gynhwysir o fewn y CDLI ar y Cyd.

The Anglesey and Gwynedd Joint Local Development Plan (JLDP) was adopted by the Councils on 31st of July, 2017. The JLDP replaces the previous adopted development plan for the Anglesey and Gwynedd Local Planning Authority areas. The JLDP sets out the land use planning framework for the Authorities. Following adoption of the JLDP the Councils are in the process of preparing a suite of topic based Supplementary Planning Guidance (SPG). SPGs provide guidance about specific policies contained within the JLDP.

Mae'r Cyngorau yn dymuno derbyn eich barn chi ynglŷn â'r Canllawiau Cynllunio Atodol (enwir uchod) sydd yn destun cyfnod ymgynghori cyhoeddus ar hyn o bryd. Fe fydd y cyfnod ymgynghori cyhoeddus yn cychwyn ar 13eg Rhagfyr 2018 a'r 31ain Ionawr 2019.

The Councils wish to receive your opinion on the Supplementary Planning Guidance (referred to above), which are subject to the current public consultation period. The public consultation will take place from the 13th December 2018 and the 31st January 2019.

Mae posib archwilio'r CCA sydd yn destun yr ymgynghoriad cyhoeddus oddi ar wefan y Cyngor (<http://www.gwynedd.llyw.cymru/cca>). Mae copïau

It is possible to view the SPGs that are the subject of the public consultation period on the Councils' website (<http://www.gwynedd.llyw.cymru/spg>). Paper copies are also available for inspection in Siop Gwynedd

GWEITHREDU – ystyried yr ohebiaeth a gweithredu fel bo'r angen
ACTION REQUIRED – to consider the request, and to act as necessary

16 Ceisiadau Cynllunio / Planning Applications Ceisiadau Rhagfyr 2018 - Applications for December 2018

Cofnod Cyf / Minute Ref 18-10-31

Cais Rhif / Application Number - **C18/0875/17/LL**

Cyfeiriad / Address -

Dinlle Caravan Park, Dinas Dinlle LL55 5TW

Bwriad / Proposal -

Cais llawn i resymoli safle pwll nofio presennol trwy ddymchwel adeiladau presennol a chodi adeilad newydd i gynnwys toiledau, campfa, storfa ag ystafell offer a chodi estyniad i gynnwys adnoddau ychwanegol. Full application to rationilise existing swimming pool site by demolishing existing buildings, construction of new buildings, to include new toilets, gym, store and plant room and a new extension to include additional facilities.

Penderfyniad y Cyngor Cyfarfod 15 Hydref 2019 – gohirio penderfyniad – dim gwrthwynebiad o safbwynt y cais ar gyfer dymchwel adeiladau ond tydi'r cais ddim yn eglur ar beth yw'r bwriad gyda'r filod scoping syddwedi ei gynnwys yn y cais. Y Cyngor angen fwy o wybodaeth

Council Decision 15 October 2018 – deferred . Council raised no objection to the demolition etc but requires more information regarding the filod scoping that is included with the application.

Gwybodaeth pellach wedi ei dderbyn - Further information on the Flood Cosequences Assessment received.

Materion Ariannol / Financial Matters

17 Derbyniadau Wedi ei Dderbyn Tachwedd 2018 – Income Received November 2018

Manylion / Details	Cyfanswm
Ffi Claddu / Burial Fees	£455.00

18 Taliadau sydd angen eu hawdurdodi gan y Cyngor - Payments to be approved

Manylion / Details	Swm heb TAW Amount excluding VAT	Cyfanswm y Taliad- Total Payment	Rhif Siec/ Cheque Number
Cyflog y Clerc – Rhagfyr 2018 – Clerks Salary December 2018			Uniongyrchol/Direct
HMRC-Treth Incwm Rhagfyr – Income Tax December 2018			Uniongyrchol/Direct
Lwfans Clerc–Rhagfyr - Clerks Allowance December 2018			Uniongyrchol/Direct
Swyddfa Archwilio Cymru – Audit 2017-18 Welsh Office Audit	£350.00	£350.00	101847
Huw Roberts – Cyfieuthu Mis Rhagfyr / Translation December	£54.00	£54.00	101848
Zurich Munucipal – Yswiriant ychwanegol – amendments to policy	£179.85	£179.85	101849
Clwb Genod Llan – Adran 137 2017-18 – disodli siec	£100.00	£100.00	101850
Ffrindiau Ysgol Llandwrog – Adran 137 2017-18 – disodli siec	£100.00	£100.00	101851

19 Dyddiadau Cyfarfodydd Nesaf / Dates of Next Meetings

Cyfarfod / Meeting – **Cyngor Llawn Mis Ionawr / January Full council**

Dyddiad / Date - Dydd Llun 21 Ionawr 2019 / Monday 21 January 2019

Amser / Time - 7.30 yr hwyr

Lleoliad / Venue Neuadd – Neuadd Groeslon

Cyfarfod / Meeting – **Cyngor Llawn - Ymgysylltu / Full Council - Consulting**

Dyddiad / Date - Dydd Llun 21 Ionawr 2019 / Monday 21 January 2019

Amser / Time - 7.30 yr hwyr

Lleoliad / Venue Neuadd – Neuadd Groeslon

Cyfarfod / Meeting – **Pwyllgor Cyllid – Cyllideb 2019-20 / Finance Committee – Budget 2019-20**

Dyddiad / Date - Dydd Iau 10 Ionawr 2019 / Thursday 10 January 2019

Amser / Time - 7.00 yr hwyr

Lleoliad / Venue Neuadd – Neuadd Groeslon

20 Materion i'w codi gan aelodau i gyfarfod nesaf o'r Cyngor Llawn (21 Ionawr 2019 / 21 January 2019) *Matters to be raised by members in the next meeting*

Diwedd - end